

RAHILA HAMID

ETIFEDDIAETH

Ganed Rahila Hamid ym mhentref ei hen-daïd a'i hen-nain ym Mhakistan a threuliodd ei phlentyndod rhwng bywyd pentref a dinasoedd mawr.

Fe'i magwyd gan ei nain a'i modryb; menywod cryf, cymunedol eu hysbryd, a rhoddodd werthoedd o garedigrwydd, cydraddoldeb a pharch ynddi.

CYMRU YW...

UNED CYMUNED YMRODDIAD

Daeth Cymru yn gartref i Rahila wrth iddi adeiladu annibyniaeth yma - gan lywio ysgolion, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus wrth fagu ei phlant.

Siapiodd Casnewydd ei hymdeimlad o berthyn, ac wrth helpu eraill i ddeall systemau ac i gael mynediad at gymorth, cryfhaodd ei theimlad mai dyma lle'r oedd hi wir yn perthyn.



CYMUNED



CYFRANIAD

Am flynyddoedd mae Rahila wedi arwain pobl drwy iechyd, iechyd meddwl a gofal cymdeithasol - yn enwedig trigolion hŷn a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau iaith.

Drwy rolau gydag Age Cymru, Newport Mind, ac fel Cadeirydd Age Alive, mae hi'n herio bylchau mewn gwasanaethau ac yn eirioli dros fynediad teg i gymunedau ethnig lleiafrifol.

Yn 2022 derbyniodd Wobr Gymunedol Hanes Pobl Dduon Cymru am ei chyfraniad rhagorol.

CRYFDERAU A LLAWENYDD

Mae Rahila yn tynnu cryfder o'i ffydd a'i hymrwymiad dwfn i wasanaethu. Mae hi'n angerddol dros rymuso menywod a chefnogi pobl hŷn, gan gael llawenydd o allu helpu eraill.

“

**BYDDWCH YN FALCH O BUW YDYCH CHI:
BETH BYNNAG YW LLIW EICH WYNEB,
A BYDDWCH YN LLWYDDO. ”**